**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian cyhoeddus ar gyfer Coetiroedd Ffynone a Chilgwyn

Chwefror 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: YPwyllgorCyfrifonCyhoeddus.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian cyhoeddus ar gyfer Coetiroedd Ffynone a Chilgwyn

Chwefror 2011

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru'n cael ei archwilio'n briodol ac yn drylwyr, a bod yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn glynu wrth y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n gwneud hyn er mwyn i bobl Cymru allu teimlo'n hyderus bod eu harian yn cael ei wario'n synhwyrol ac yn dda.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am aelodau, cylch gwaith a chyhoeddiadau blaenorol y Pwyllgor yn: **www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-ac-home.htm**

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Mae ei bwerau wedi'u gosod allan yn Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Rheol Sefydlog13 yn benodol. Mae'r rhain ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**.

**Aelodau'r Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Clwyd West
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Jeff Cuthbert**
Caerffili
Llafur



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Irene James**
Islwyn
Llafur



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Sandy Mewies**
Delyn
Llafur



**Jonathan Morgan**
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** ........ **5**

**1. Cyflwyniad.** ........ **8**

**2. Sesiwn Dystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu** ........ **10**

Cefndir. ........ 10

Roedd strwythur Cynllun Cydcoed yn golygu bod risg sylweddol na fyddai'r gymuned leol yn cael ei chynrychioli'n ddigonol. ........ 13

Roedd y gweithdrefnau ar gyfer ymgeisio am grantiau, asesu risgiau corfforaethol a phrosiectau a sicrhau gwerth am arian heb eu datblygu'n ddigonol ac roedd diffygion yn y ffordd yr oeddent yn cael eu rhoi ar waith. ........ 15

Rheoli Risg ........ 16

Rheoli Prosiectau ........ 18

Gosod Targedau a Monitro ........ 19

Cynnwys Ffurflenni Cais Prosiectau. ........ 20

Ni lwyddodd y broses rhoi a rheoli grantiau i ddiogelu'r buddsoddiad cyhoeddus yn ddigonol yng Nghoetir Ffynone a Chilgwyn. ........ 23

Rheolaeth ariannol ac archwilio Rhaglen Cydcoed ........ 23

Contract Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Calon ........ 25

Cynllun busnes Calon. ........ 28

Cefnogi a Monitro rhoi'r Argymhellion ar waith. ........ 30

**3. Casgliad** ........ **30**

**Tystion** ........ **32**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **33**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu, yn cyhoeddi ac yn rhoi ar waith feini prawf digonol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ceisiadau am arian grant. Bydd hynny'n gymorth i sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael sylw effeithiol, a bod eu buddiannau'n cael eu diogelu.** **(Tudalen 15)**

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu, yn cyhoeddi ac yn rhoi ar waith ddiffiniad clir o "grŵp cymunedol" mewn rhaglenni a gweithgareddau yn y dyfodol. Bydd hynny'n gymorth i sicrhau bod grwpiau o'r fath yn adlewyrchu'n gyffredinol y cymunedau lle maent wedi'u seilio.** **(Tudalen 15)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ein sicrhau bod hyfforddiant rheoli risg priodol wedi'i roi i'r *holl* staff gan ddweud hefyd sut y caiff yr hyfforddiant hwn ei ddiweddaru a'i loywi yn ôl y gofyn.** **(Tudalen 18)**

**Rydym yn ailadrodd ail argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol, gan argymell yn benodol y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ddangos ei fod yn dilyn dull priodol o reoli prosiectau gan roi sylw llawn i'r diffygion a nodwyd yn ein hadroddiad ac yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.** **(Tudalen 19)**

**Rydym yn ailadrodd argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru sicrhau bod trefniadau monitro Cynllun Cydcoed yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn, ac rydym yn ceisio sicrwydd y bydd monitro rhaglenni yn y dyfodol yn cynnig tystiolaeth ynghylch eu gwerth i bwrs y wlad.** **(Tudalen 20)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru sicrhau bod profiad ym maes coedwigaeth, neu ymrwymiad i feithrin sgiliau coedwigaeth a rheoli'r tir yn unol â hynny, fod yn ofyniad**

**mewn unrhyw raglen grantiau yn y dyfodol ar gyfer prynu neu reoli tir coedwig. (Tudalen 22)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru roi trefniadau ar waith i wirio geirdaon a phrofiad y sawl sy'n derbyn grant fel rhan o'r gwiriadau safonol ar gyfer pob rhaglen grant cyn dyfarnu contract. (Tudalen 22)**

**Rydym yn argymell bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhoi manylion y gwiriadau rheolaeth ariannol a oedd ar waith ar y pryd i sicrhau na fyddai unrhyw ordalu'n digwydd, ynghyd â manylion i ddangos a ddilynwyd y drefn wirio hon yn yr achos hwn, er mwyn inni bwyso a mesur i ba raddau yr oedd y gwall yn wall gweinyddol mewn gwirionedd ynteu'n ddiffyg yn y system. (Tudalen 23)**

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwiriadau sylfaenol, gan gynnwys dilysu'r grant a delir ar sail y ffigurau y cytunwyd arnynt yn unol â thelerau ac amodau'r grant, wedi'u cynnwys ym methodoleg archwilio'r cyrff sy'n gweinyddu arian grant ar eu rhan. (Tudalen 25)**

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal gwiriadau i ddilysu bod ffigur cywir y prisiad wedi'i gynnwys yn y contractau ar gyfer yr wyth grant arall a roddwyd drwy raglen Cydcoed i brynu tir a bod y taliad neu'r taliadau wedyn yn cyfateb â'r swm cywir. (Tudalen 25)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru adolygu ei brosesau rhoi grantiau a'i gontractau yng ngoleuni Atodiad 5.1 (grantiau i drydydd partïon) ac Atodiad 5.2 (gwarchod buddsoddiadau cyhoeddus) o Reoli Arian Cyhoeddus Cymru, gan sicrhau cydymffurfiaeth â hwy. (Tudalen 27)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru weithio gyda Calon i sicrhau bod y gyfran fwyaf posibl o Goetir Ffynone a Chilgwyn yn cael ei dynodi dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 cyn gynted byth ag y bo modd. (Tudalen 27)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru barhau i annog y gymuned i gymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir**

**ynghylch y coetir ym mhob ffordd bosibl, gan obeithio a chan ddisgwyl y bydd y gymuned yn ymateb. (Tudalen 28)**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ddarparu:**

- **rhesymwaith clir ar gyfer cyflwyno pob cynllun busnes a gyflwynwyd gan Calon ar gyfer Rhaglen Cydcoed ac ar gyfer Rhaglen Coetiroedd Gwell i Gymru gan ddweud pam y gofynnwyd am y cynlluniau;**
- **amserlen cyflwyno pob fersiwn o gynllun busnes Calon, o'i chymharu â chyflwyno a chymeradwyo'u ceisiadau ar gyfer Rhaglen Cydcoed a Rhaglen Coetiroedd Gwell i Gymru;**
- **sicrwydd bod cynllun priodol o safon ddigonol i fodloni gofynion y rhaglen wedi dod i law cyn cymeradwyo Grant Gwell Coetiroedd i Gymru. (Tudalen 29)**

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n rhoi sicrwydd inni fod holl gynlluniau busnes Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r cynlluniau a gyflwynir i gefnogi ceisiadau am arian, yn cael eu paratoi yn awr yn unol â gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi. (Tudalen 29)**

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i sicrhau bod argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac argymhellion y Pwyllgor hwn i'r sefydliad hwnnw'n cael eu rhoi ar waith, gan roi sicrwydd i'r Pwyllgor hwn maes o law bod yr argymhellion wedi'u cyflawni neu wrthi'n cael eu cyflawni. (Tudalen 30)**

**Rydym yn argymell y dylai'r Archwilydd Cyffredinol roi ar brawf a yw'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith: argymhellion yr adroddiad hwn, argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus ar gyfer Coetir Ffynone a Chilgwyn, ac argymhellion yr adroddiadau blaenorol am Waith Comisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghymru a baratowyd gan y pwyllgor hwn a'r Archwilydd Cyffredinol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llwyr. (Tudalen 30)**

# 1. Cyflwyniad.

1. Gosododd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ar y pryd) (yr 'Archwilydd Cyffredinol') ei hadroddiad "Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn" gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Awst 2010.[1]

2. Ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol a oedd y £502,000 a roddodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ei Raglen Cydcoed II (Cydcoed) i Calon yn Tyfu Cyf (Calon) i brynu Coetir Ffynone a Chilgwyn yn "briodol, yn ddiduedd ac yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt". [2] Casglodd: "bod yr arian i Calon wedi bodloni amodau lefel uchel y cynllun grant, ond nad oedd meini prawf na gweithdrefnau'r cynllun ar gyfer adolygu ceisiadau yn ddigon cadarn, gan gynyddu'r risg na ellir diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus."[3]

3. Cawsom adroddiad am ganfyddiadau'r adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 23 Medi 2010 a chytunwyd i alw'r Swyddog Cyfrifyddu i esbonio'r camau a gymerwyd gyda golwg ar y materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

4. Daeth y Swyddog Cyfrifyddu, Mr Trefor Owen, ger ein bron ar 25 Tachwedd 2010 ynghyd â Mr Richard Siddons, Pennaeth Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Seilir yr adroddiad hwn yn bennaf ar y dystiolaeth a roddwyd yn y cyfarfod hwnnw.

5. Mae sawl peth pwysig yn ein poeni am y ffordd y gweinyddwyd y grant a roddwyd i Calon, a chredwn fod y rheini'n codi ystyriaethau ehangach ynghylch sut mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweinyddu rhaglenni grantiau. Disgrifiodd y Swyddog Cyfrifyddu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion y tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol atynt ac rydym yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, rydym wedi rhestru nifer o gamau a fydd, yn ein barn ni, ochr yn ochr ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, yn gwella'r drefn weinyddu yn y dyfodol ac yn ein sicrhau bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gwario arian cyhoeddus mewn ffordd briodol. Er mwyn monitro sut y caiff y ddwy set o argymhellion eu rhoi ar waith, cynigiwn y dylai'r

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn, Awst 2010
[2] Ibid, t6.
[3] Ibid. t7.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel y’i cyfansoddir yn y Pedwerydd Cynulliad, roi sylw i'r mater hwn eto.

## 2. Sesiwn Dystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu

**Cefndir.**

6. Er bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, mae'n gweithredu fel adran goedwigaeth *de facto* Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn hynny o beth, cyfeirir ato weithiau fel un o 'isadrannau rhithiol' Llywodraeth Cymru. Rhan o'i gylch gorchwyl yw rhoi grantiau i gyrff trydydd parti i'w cynorthwyo i wireddu amcanion Llywodraeth Cymru ym maes coedwigaeth, yn unol â strategaeth *Coetiroedd i Gymru.*[4]

7. Rhoddwyd Cydcoed ar waith gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru rhwng 2003 a 2008. Roedd y rhaglen yn rhoi grantiau hyd at 100% i grwpiau cymunedol yn rhanbarth Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd (yr UE), ar sail arian Amcan 1 yr UE ac arian cyfatebol drwy Gynllun Llwybrau at Ffyniant Llywodraeth Cymru. Roedd y rhaglen yn targedu:

- cymunedau y mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn eu rhestru ymhlith y rhai mwyaf di-freintiedig yng Nghymru; a / neu'r
- cymunedau lle nad oes gan y bobl feysydd glas yn eu cymuned i ymlacio ac ymarfer ynddynt.

At hynny, roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar dair thema:

- creu coetiroedd glas i gymunedau;
- sicrhau bod coetiroedd glas yn fwy hygyrch i gymunedau; ac
- annog cymunedau i ymwneud â datblygu cynaliadwy sy'n gysylltiedig â choetiroedd[5].

8. Yng ngogledd sir Benfro y mae Coetiroedd Ffynone a Chilgwyn. Ym mis Medi 2006, cymeradwyodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru gais am arian Cydcoed gan Calon, menter gydweithredol gan weithwyr a chwmni cyfyngedig drwy warant. Cais am grant llawn gwerth £502,000 oedd hwn i brynu coetir. Talwyd y grant fesul dau randaliad yn hydref 2006. Yna, cymeradwywyd cais dilynol am £236,177 arall dan gynllun

[4] Llywodraeth Cymru, *Coetiroedd i Gymru*, 2001. Y strategaeth hon yw gweledigaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coed a choetiroedd yng Nghymru.

[5] Asiantaeth Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth (Prydain Fawr), *An evaluation of Cydcoed: the social and economic benefits of using trees and woodlands for community development in Wales*, (Saesneg yn unig) Tachwedd 2008, t18 (Mae crynodeb gweithredol ar gael yn Gymraeg:
http://www.forestry.gov.uk/pdf/Crynodeb_Gweithredol_Cydcoed_Ionawr_2009.pdf/$FILE/Crynodeb_Gweithredol_Cydcoed_Ionawr_2009.pdf)

grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru i gwblhau gwaith gwella yn unol â chynllun rheoli a gymeradwywyd.

9. Ym mis Mehefin 2009, daeth y ddeiseb a ganlyn gerbron Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i cyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Manordeifi.

> "Mae Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i'r cyllid a roddwyd i Calon yn Tyfu / Growing Hearts Ltd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer prynu coetiroedd Ffynone a Chilgwyn yng Ngogledd Sir Benfro o dan Gynllun Cydcoed, a ariennir yn gyhoeddus."[6]

10. Cyfeiriodd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb at yr Archwilydd Cyffredinol, ac roedd aelodau o'r gymuned leol hefyd wedi cysylltu'n uniongyrchol â hi. Bu'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a oedd yr arian a roddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i Calon yn "briodol, yn ddiduedd ac yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt". [7] Casglodd Swyddfa Archwilio Cymru, er bod y ffordd yr ariannwyd Calon yn cydymffurfio ag amodau lefel uchel y cynllun grant: "nad oedd meini prawf na gweithdrefnau'r cynllun ar gyfer adolygu ceisiadau yn ddigon cadarn, gan gynyddu'r risg na ellir diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol hwn."[8]

11. Dyma argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru:

- dylai'r Comisiwn weithio gyda Calon i ystyried opsiynau ar gyfer:

  a) mwy o gyfraniad gan y gymuned yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y coetir i gynnwys cynrychiolaeth gymunedol ar fwrdd Calon, ee, fel cyfarwyddwyr anweithredol;

  b) diogelu'r ased ar gyfer y gymuned leol a phwrs y wlad yn y tymor hwy;

---

[6] Gwefan Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-232.htm, [Fel ar 2 Chwefror 2011]
[7] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru: *Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*, Awst 2010
[8] Ibid. t7

- mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod angen prosesau rheoli prosiect cadarnach o ran cynlluniau grant sy'n defnyddio methodoleg PRINCE2. Dylai'r Comisiwn, gan adeiladu ar y fethodoleg hon, sicrhau bod prosesau ar waith i ddarparu sicrwydd bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu cymhwyso'n effeithiol at bob cynllun newydd a phob cynllun sy'n bodoli eisoes cyn gynted â phosibl;
- dylai fod yn ofynnol i staff y Comisiwn gwblhau ffurflen Datganiad Blynyddol o Fuddiant a ddylai gael ei hadolygu a'i hawdurdodi gan aelod o'r Bwrdd Rheoli er mwyn asesu goblygiadau i feysydd gwaith y dyfodol. Dylai fod yn ofynnol i staff ddiweddaru'r rhain yn ystod y flwyddyn pan gyfyd amgylchiadau priodol;
- dylid rhoi canllawiau i staff o bryd i'w gilydd ynghylch gofynion Datganiadau o Fuddiant a Rhoddion a Lletygarwch er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o hyd o'u cyfrifoldebau;
- dylai'r Comisiwn, gan adeiladu ar yr argymhellion a godwyd yn adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol mewn rheoli risg o bryd i'w gilydd;
- dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff trefniadau monitro ar gyfer cynllun Cydcoed eu cymhwyso'n gadarnach yn y dyfodol;
- dylai targedau a bennir ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol fod yn gadarn ac yn heriol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwerth priodol am arian a ddyfernir; a
- dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff graddau risg ar gyfer ceisiadau Coetiroedd Gwell i Gymru a wnaed cyn mis Ebrill 2008 eu hadolygu a'u diweddaru o fewn system Coetiroedd Gwell i Gymru er mwyn sicrhau bod y graddau risg yn berthnasol yn hytrach nag yn rhai sy'n cael eu pennu'n 'isel' fel mater o reol.

12. Ategwn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac nid diben yr adroddiad hwn yw ailadrodd dadansoddiad a chasgliadau'r adroddiad hwnnw. Er ein bod yn defnyddio adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, rydym wedi pwyso a mesur y dystiolaeth a roddwyd i ni gan y Swyddog Cyfrifyddu, ei dystiolaeth ysgrifenedig a'i dystiolaeth lafar, ac wedi gwneud argymhellion yn unol â hynny, gan atgyfnerthu argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol lle'r oedd hynny'n briodol. Dylid nodi, er bod y Cyngor Cymuned wedi croesawu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ei fod yn dal i fynegi pryder ynghylch amgylchiadau'r

grant. Mae wedi ysgrifennu i'r perwyl hwnnw at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ac at aelodau'r Pwyllgor hwn ac mae'n dal i alw am ymchwiliad cyhoeddus i'r mater[9].

13. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi ystyried y dystiolaeth ac wedi ceisio gwneud argymhellion gyda golwg ar ddwy egwyddor:

- sicrhau'r canlyniadau gorau posibl er budd y cyhoedd wrth reoli Coetir Ffynone a Chilgwyn yn y dyfodol;
- mynd i'r afael â'r gwendidau yng ngweithdrefnau Comisiwn Coedwigaeth Cymru y tynnwyd sylw atynt yn y dystiolaeth.

14. Dylid nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol[10] a'r Pwyllgor hwn dan ei deitl blaenorol sef y Pwyllgor Archwilio[11] ill dau wedi ystyried gwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru o'r blaen. Mae argymhellion yr adroddiadau hynny'n berthnasol o hyd a byddwn yn cyfeirio atynt lle bo hynny'n briodol. Pan gawsom adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 23 Medi 2010, cyfeiriodd hi a'i chydweithwyr at y gwaith a oedd wedi'i fwriadu i fonitro argymhellion adroddiad blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol.[12] Ers hynny, rydym wedi cael ar ddeall nad yw Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn meddwl bod angen parhau i archwilio'r rhain bellach. Yn sgil y dystiolaeth a ystyriwyd yng nghyswllt adroddiad presennol yr Archwilydd Cyffredinol am arian cyhoeddus ar gyfer Coetir Ffynone a Chilgwyn, credwn fod hyn yn hynod o anffodus.

**Roedd strwythur Cynllun Cydcoed yn golygu bod risg sylweddol na fyddai'r gymuned leol yn cael ei chynrychioli'n ddigonol.**

15. Soniodd y Swyddog Cyfrifyddu am y rhesymau dros sefydlu meini prawf y cynllun heb ddiffinio'n glir beth a olygid wrth 'grŵp cymunedol', gan honni ei fod yn targedu cymunedau ond mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i Calon geisio denu'r gymuned i ymwneud â'r cynllun ar ôl dyfarnu'r grant:

> "The programme was deliberately designed at that time to encourage a very broad range of organisations to engage in community development using woodlands. It was deliberately

[9] Llythyr gan Gyngor Cymuned Manordreifi i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 17 Hydref 2010.
[10] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru*, 13 Tachwedd 2008
[11] Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru*, Mawrth 2009
[12] Cofnod y Trafodion [para 126] 23 Medi 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

> aimed at high-capacity groups as well as low-capacity groups, because there was a feeling that the same small number of groups were involved in community forestry at that time and that we were dealing with the same people. The aim of the programme was to broaden the opportunities for groups, particularly those who might not have considered using woodlands in a meaningful way for community development, to engage in the programme. So, the scheme criteria were deliberately set to be very broad and were not restrictive."[13]

16. Canlyniad mynd ati fel hyn oedd bod modd i Calon, fel pob ymgeisydd arall i Cydcoed, sicrhau 100% o'r arian i brynu'r tir er mai cwmni preifat ydoedd, oherwydd nad yw'n gwmni â'i fryd ar wneud elw, ei fod yn gyfyngedig drwy warant a'i fod wedi'i seilio yn y gymuned leol. Awgryma'r Swyddog Cyfrifyddu: "community involvement and engagement in woodlands has now become much more mainstreamed". Aeth rhagddo i ddweud:

> "we would now ensure in work with communities that one of the first checks done before any funding was given to community groups is that a group has open membership, for example. So, it would be very easy for anyone in the locality to get engaged and have a real say in decision making within that particular community group. So, one of the lessons that we have taken away is that we need to be smarter in defining the criteria for supporting community groups. By now, having worked with others, we have a much greater understanding of the constitutional arrangements involving community groups."[14]

17. Rydym yn nodi ac yn croesawu'r ymrwymiad i wirio strwythur aelodaeth grwpiau cymunedol yn y dyfodol, ond credwn y dylasai fod yn amlwg wrth ddatblygu Cydcoed ar y dechrau bod angen archwilio'r trefniadau cyfansoddiadol. At hynny, petai rhywun wedi mynnu cael strwythur aelodaeth agored, ni fyddai hynny wedi rhwystro'r nod o annog cyfranogaeth eang gan y gymuned yn y rhaglen. Yn wir, efallai y byddai wedi hwyluso hynny.

18. Roedd meini prawf y cynllun hefyd yn caniatáu i ymgeisydd geisio denu digon o gyfranogaeth gan y gymuned ar ôl dyfarnu'r grant. Yn wir, nodwn sylw'r Archwilydd Cyffredinol: "Mae cais Calon yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn disgwyl ychydig o wrthwynebiad lleol

[13] Cofnod y Trafodion [para 6] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[14] Ibid para 8

i'w gynlluniau" a bod "Rheolwr Rhaglen Cydcoed wedi derbyn bod y methiant i ymgynghori â'r cyhoedd yn gamgymeriad sylfaenol". [15] Adlewyrchir y gydnabyddiaeth hon yn nhystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu:

> "Best practice would suggest that you would try to get full public consultation before entering into this sort of exercise. Regrettably, that did not happen on this occasion. It was not a prior requirement, strange as that may seem, because the view was taken in the scheme design that extensive public consultation could build unrealistic expectations, and if the grant was turned down at some point, it would set people back in respect of their confidence in engaging in community work and development."[16]

19. Rydym yn croesawu ei fod yn cydnabod na wnaeth y cynllun ddilyn yr arferion gorau a chredwn y dylai'r gofyniad i ymgynghori'n ddigonol â'r cyhoedd fod yn un o'r rhagofynion wrth rannu unrhyw arian i brynu asedau cymunedol megis y coetir dan sylw. Nodwn hefyd fod ymdrechion wedi'u gwneud i ymgysylltu â'r gymuned leol ers dyfarnu'r grant i Calon. Gresyn nad yw'r ymdrechion hyn wedi dwyn mwy o ffrwyth nag y maent.[17]

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu, yn cyhoeddi ac yn rhoi ar waith feini prawf digonol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ceisiadau am arian grant. Bydd hynny'n gymorth i sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael sylw effeithiol, a bod eu buddiannau'n cael eu diogelu.**

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu, yn cyhoeddi ac yn rhoi ar waith ddiffiniad clir o "grŵp cymunedol" mewn rhaglenni a gweithgareddau yn y dyfodol. Bydd hynny'n gymorth i sicrhau bod grwpiau o'r fath yn cynrychioli'n gyffredinol y cymunedau lle maent wedi'u seilio.**

**Roedd y gweithdrefnau ar gyfer ymgeisio am grantiau, asesu risgiau corfforaethol a phrosiectau a sicrhau gwerth am arian heb**

---

[15] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn, Awst 2010, t9

[16] Cofnod y Trafodion [para 103] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

[17] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn, Awst 2010, t9

**eu datblygu'n ddigonol ac roedd diffygion yn y ffordd yr oeddent yn cael eu rhoi ar waith.**

20. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi sawl diffyg o ran rheoli'r broses ymgeisio am grantiau, yn enwedig yng nghyswllt rheoli risg, a sicrhau gwerth am arian, yn bennaf:

- bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru heb gomisiynu prisiad tir annibynnol i gadarnhau bod prisiad Calon yn gywir, er mai dyma'r grant mwyaf a roddwyd gan Raglen Cydcoed;
- bod is-grŵp y Bwrdd Rheoli a sefydlwyd i adolygu ceisiadau am grantiau uwch na £250,000 wedi ystyried cais Calon drwy'r e-bost;
- ni roddwyd sylw digonol i'r risgiau a nodwyd gan is-grŵp y Bwrdd Rheoli cyn cymeradwyo'r grant. Un o'r rheini oedd bod angen sicrhau bod y budd cyhoeddus yn y buddsoddiad wedi'i ddiogelu'n ddigonol wrth ddyfarnu contract y grant (trafodir hyn isod).
- roedd y sgôr risg a roddwyd i'r prosiect, sef 'cymedrol' yn amhriodol, ac ystyried natur a maint y grant, a'r pryderon a godwyd gan is-grŵp y Bwrdd Rheoli;
- roedd gwendidau sylweddol yn nhrefn gosod a monitro targedau Rhaglen Cydcoed; a
- ri thybiwyd bod profiad yr ymgeisydd ym maes coedwigaeth a chaniatâd cynllunio'n berthnasol i'r cais ac nid oedd gweithdrefnau Cydcoed yn mynnu bod ymgeiswyr am grantiau'n cyfiawnhau eu datganiadau cyn i'r grant gael ei gymeradwyo.[18]

***Rheoli Risg***

21. Wrth roi tystiolaeth lafar, roedd y Swyddog Cyfrifyddu'n cydnabod bod nifer o wersi i'w dysgu[19] yn sgil adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Wrth sôn am reoli risg, dywedodd:

> "We have broken our risks down to two levels, the first of which is the operational level. Each of my board members is responsible for operational risk registers that are relevant to his or her particular area of work. Sitting above that, there is a

[18] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru: *Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*, Awst 2010, tt11-16
[19] Cofnod y Trafodion [para 10] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

corporate risk register, which reflects some of the highest risks in the operational risk registers and anything else that my board or my audit and risk committee feel that we need to consider beyond the operational side of things as well. All projects have a risk register as well and I review each operational risk register with the appropriate board member monthly. The corporate risk register is considered six times a year by my audit and risk committee and management board. So, we certainly have a culture where risk management is firmly embedded in the way in which we think about our business. We also have that capability and the right culture in terms of risk management."[20]

22. Soniodd hefyd am ymagwedd dymor hir at sicrhau gwerth am arian sy'n uniongyrchol gysylltiedig â strategaeth goedwigaeth Llywodraeth Cymru.

> "any future projects—and, indeed, some of our current projects—would be designed with value for money in mind. For example, we would relate the outcomes that we seek from a particular programme or a project not only to our corporate plan for the next three years, but also to the Welsh Government's 'Woodlands for Wales' strategy, which covers a 50-year period. So, we have a clear alignment between the outcomes that we are looking for from particular programmes and the overall societal outcomes that we are looking for."[21]

23. Er inni groesawu'r ymagwedd newydd at risg a rheoli prosiectau y cyfeiriodd y Swyddog Cyfrifyddu ati, nodwn fod ei dystiolaeth lafar yn ymwneud ag aelodau uwch y staff yn rheoli risg, er mai argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yw y dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant rheoli risg priodol. Sylwn fod y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn dweud y byddai hyn yn cael ei wneud erbyn 30 Tachwedd 2010[22].

---

[20] Cofnod y Trafodion [para 10] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[21] Ibid para 11
[22] Comisiwn Coedwigaeth Cymru, *Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru*, Atodiad 1, Cam Gweithredu 5

24. Dylid nodi bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2008 am waith Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn tynnu sylw hefyd at y ffaith bod angen gwella rheoli prosiectau a rheoli risg.[23]

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ein sicrhau bod hyfforddiant rheoli risg priodol wedi'i roi i'r *holl* staff gan ddweud hefyd sut y caiff yr hyfforddiant hwn ei ddiweddaru a'i loywi yn ôl y gofyn.**

### *Rheoli Prosiectau*

25. Nodwn sylwadau'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n awgrymu bod camau sylweddol wedi'u cymryd i wella'r drefn rheoli prosiectau:

> "I am certainly very comfortable with the approach that we are now taking to actively and demonstrably manage projects and risk manage them. One of the things that we have brought in, for example, as best practice in terms of our project management, as I said earlier, is that we always insist on having one of the board members as the senior responsible officer....If it was a much more complex project that straddled other departments or a third party, I would expect some of my non-executive officers to play a part in sitting on project boards."[24]

26. Rydym yn croesawu unrhyw gamau a gymerir i gydymffurfio ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch rheoli prosiectau (argymhelliad 2) a gosod targedau (argymhelliad 7). Nodwn y dulliau rheoli prosiectau a gyflwynir yn nogfennau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a roddwyd inni a chredwn fod y rhain yn dangos cynnydd o ran datblygu dull priodol o reoli prosiectau.[25] Serch hynny, nid yw'n glir inni sut mae'r dogfennau a ddarparwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn mynd i'r afael â'r ffaith bod angen cynnwys y gymuned lle bo hynny'n briodol. At hynny, esboniai canllawiau'r Comisiwn Coedwigaeth sut mae'r materion rheoli prosiectau sydd wedi cael sylw yn ymwneud â'r broses a ddilynir wrth sicrhau caniatâd i gael arian ychwanegol, ac er ein bod yn croesawu cyfeiriadau at werth am arian yn y broses hon, nid yw'r ddogfen yn tawelu ein meddwl o ran sut y

---

[23] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru*, 13 Tachwedd 2008, tt34-35
[24] Cofnod y Trafodion [para 121] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[25] Forestry Commission Wales Strategic Guidance and Programmes: Level 3 Governance for non-baseline funded projects

caiff gwerth am arian ei sicrhau wrth roi'r prosiect ar waith a'i fonitro[26] Tynnwn sylw'r Swyddog Cyfrifyddu at y datganiadau hyn a wnaeth: "community involvement and engagement has now become much more mainstreamed,"[27] ac "on your questions about value for money, any future projects-and indeed, some of our current projects-would be designed with value for money in mind".[28] Er mwyn "prif-ffrydio" y dulliau hyn a'u rhoi ar waith, credwn y dylid eu hadlewyrchu yng nghyfarwyddyd rheoli prosiectau Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystod eu hoes.

**Rydym yn ailadrodd ail argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol, gan argymell yn benodol y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ddangos ei fod yn dilyn dull priodol o reoli prosiectau gan roi sylw llawn i'r diffygion a nodwyd yn ein hadroddiad ac yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.**

### *Gosod Targedau a Monitro*

27. Yn ei dystiolaeth lafar, roedd y Swyddog Cyfrifyddu'n cydnabod y diffyg o ran gosod targedau yn y rhaglen gan ddweud: "with over 10 years-worth of hindsight and experience in performance management, we could concur that it is of no surprise that the targets were not particularly hard and were quite difficult to verify in many cases, certainly over a 20-year period."[29]

28. Nodwn y gwaith i ddiweddaru trefniadau monitro Cydcoed, gan gynnwys y gwaith i werthuso'r rhaglen y cyfeiriodd y Swyddog Cyfrifyddu ato yn ei dystiolaeth lafar.[30] Serch hynny, er ein bod yn croesawu ymdrechion i wella'r ffordd y caiff Cydcoed ei fonitro, ac yn sylweddoli bod hyn yn anos am nad oedd y gwaith priodol wedi'i wneud wrth ddatblygu'r rhaglen yn y lle cyntaf, cytunwn â'r pryderon a leisiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, sef: "erys yn ansicr o hyd o'r adroddiad bod targedau Cydcoed wedi cael eu cyflawni hyd yma".[31] Ni allwn fod yn dawel ein meddwl yn sgil y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a roddwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu bod argymhelliad 6 Swyddfa Archwilio Cymru, sef: "Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff

---

[26] Forestry Commission Wales Strategic Guidance and Programmes: Level 3 governance for non-baseline funded projects, t5
[27] Cofnod y Trafodion [para 8] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[28] Ibid para 11
[29] Ibid para 133
[30] Ibid para 134-135
[31] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*, Awst 2010, t16

trefniadau monitro ar gyfer cynllun Cydcoed eu cymhwyso'n gadarnach yn y dyfodol" wedi'i roi ar waith.

29. Rhoddwyd tystiolaeth ysgrifenedig inni'n dweud bod yr argymhelliad "wedi'i gyflawni", a bod trefniadau "monitro cynlluniau Cydcoed wedi'u diweddaru."[32] Dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu:

> "We have also become a little more sophisticated on target setting. We recognise that we must measure some of the hard targets, such as whether the money was spent on what we thought that it would be spent on, and we must use social research, not only in our area, but in other areas to see whether we can get a better handle on how woodlands are making a real and qualitative difference to people's lives."[33]

30. Nodwn hefyd ddogfennaeth yr ymchwiliad sy'n sôn am agweddau technegol archwiliadau, gan gynnwys y dull a ddefnyddir i ddethol cynlluniau i'w harchwilio, a'r gwaith papur a wneir i gofnodi canfyddiadau'r archwiliadau hynny. [34] Serch hynny, nid yw tystiolaeth o'r fath yn dangos ***monitro cadarn ar bob prosiect ar sail targedau ar gyfer pob prosiect.***

**Rydym yn ailadrodd argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru sicrhau bod trefniadau monitro Cynllun Cydcoed yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn, ac rydym yn ceisio sicrwydd y bydd monitro rhaglenni yn y dyfodol yn cynnig tystiolaeth ynghylch eu gwerth i bwrs y wlad.**

***Cynnwys Ffurflenni Cais Prosiectau.***

31. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd gweithdrefnau Cydcoed yn mynnu bod swyddogion prosiectau'n dilysu ac yn cyfiawnhau'r datganiadau a wnâi ymgeiswyr yn eu ceisiadau.[35] Er bod aelodau'r cyhoedd wedi mynegi pryder am ddatganiadau Calon ynghylch eu profiad blaenorol ym maes coetiroedd er enghraifft, derbyniwn y dystiolaeth a roddwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu am ddatganiadau o ffaith, sef: "the scheme design did not make it an essential requirement for applicants to have forestry knowledge" a'r

---

[32] Comisiwn Coedwigaeth Cymru, *Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru,* Atodiad 1, Cam Gweithredu 6
[33] Cofnod y Trafodion [para 135] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[34] Ibid Atodiad 3
[35] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*, Awst 2010, t11

rhesymeg y tu ôl i hynny oedd: “it would have been difficult for many groups to get involved [in the programme]”[36]. Yn yr un modd, o ran datganiadau Calon y byddent yn ail-fuddsoddi unrhyw arian dros ben yn y coetir, derbyniwn ymateb y Swyddog Cyfrifyddu, sef:

> “the question of reinvesting the proceeds from woodland management was certainly not a material consideration in awarding the grant. So, we have not been able, and we are not required, to examine the details of how it runs its business”.[37]

32. Derbyniwn gywirdeb datganiadau'r Swyddog Cyfrifyddu yn y cyswllt hwn, a'r casgliad yn sgil hynny nad oes modd gorfodi'r ymgeisydd i wireddu’r datganiadau a wneir yn y cais, gan eu bod yn amherthnasol i broses cymeradwyo'r cais hwnnw. Serch hynny, rydym yn gresynu wrth yr amgylchiadau, ac yn cwestiynu sylwadau pellach y Swyddog Cyfrifyddu am brofiad ym maes coedwigaeth:

> “commitments by the bidder to seek a “better Woodlands for Wales” management grant for the woodland post purchase provide strong checks and balances to ensure that sustainable forest management would be practised. So, we had the grant for the land purchase and the ‘Better Woodlands for Wales’ grant, which is a mainstream woodland grant for sustainable forest management, and that has a number of significant checks and balances to ensure that woodlands are managed sustainably.”[38]

33. Nid yw'r datganiad hwn yn ein hargyhoeddi. Yn y lle cyntaf, cawn ar ddeall fod Coetiroedd Gwell i Gymru wedi disodli Cynllun Grantiau i Goetiroedd y Deyrnas Unedig drwyddi draw yn 2007.[39] Gorffennwyd *talu* grant Cydcoed i Calon ym mis Tachwedd 2006. Nid yw'n glir inni felly sut y gallai Comisiwn Coedwigaeth Cymru feddwl y byddai ymrwymiadau i wneud cais am grant gan raglen rheoli coetir (nad oedd wedi cychwyn eto) yn sicrhau cydbwysedd cadarn ar gyfer cais am grant i brynu tir dan raglen hollol annibynnol ac ar wahân. Nid yw'n glir inni sut y gellid gwneud na gorfodi "ymrwymiadau" o'r fath.

---

[36] Cofnod y Trafodion [para 103] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[37] Ibid para 24
[38] Ibid para 103
[39] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn,* Awst 2010, t7

34. At hynny, rydym yn anghytuno'n llwyr â dadansoddiad y Swyddog Cyfrifyddu, ac yn gweld risgiau sylweddol yn yr ymagwedd y cyfeiriwyd ati gyda golwg ar ddau senario posibl:

- yn gyntaf, hyd yn oed petai cais llwyddiannus am grant rheoli “Coetiroedd Gwell i Gymru” ***wedi bod yn un o amodau*** contract grant prynu Cydcoed, oherwydd nad oedd profiad ym maes coedwigaeth yn angenrheidiol wrth wneud cais am grant prynu, fe allai hynny olygu y byddai angen adennill grant Cydcoed. Gallai hynny arwain at gryn ymdrech a gallai'r pwrs cyhoeddus fod ar ei golled pe na lwyddai'r sawl a gâi'r grant i reoli'r goedwig yn effeithiol.
- yn ail, os ***nad oedd*** grant rheoli "Coetiroedd Gwell i Gymru" ***yn un o amodau*** contract grant prynu Cydcoed, a chawn ar ddeall mai dyna oedd y sefyllfa, petai'r cais am grant rheoli wedyn yn aflwyddiannus, gallai’r sefyllfa godi lle byddai’r ymgeiswyr wedi cael nawdd cyhoeddus sylweddol i brynu tir y goedwig heb fod fawr ddim dyletswydd barhaus arnynt i reoli'r tir hwnnw'n effeithiol nac i ailfuddsoddi ynddo.

Mae'r naill senario a'r llall yn annerbyniol.

35. Cytunwn â'r Archwilydd Cyffredinol y dylasai profiad perthnasol, neu yn ein golwg ni, ymrwymiad yn y contract fan leiaf i feithrin profiad a rheoli'r tir yn unol â hynny, fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau a gyflwynwyd gan Calon a phrosiectau eraill.

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru sicrhau bod profiad ym maes coedwigaeth, neu ymrwymiad i feithrin sgiliau coedwigaeth a rheoli'r tir yn unol â hynny, fod yn ofyniad mewn unrhyw raglen grantiau yn y dyfodol ar gyfer prynu neu reoli tir coedwig.**

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru roi trefniadau ar waith i wirio geirdaon a phrofiad y sawl sy'n derbyn grant fel rhan o'r gwiriadau safonol ar gyfer pob rhaglen grant cyn dyfarnu contract.**

**Ni lwyddodd y broses rhoi a rheoli grantiau i ddiogelu'r buddsoddiad cyhoeddus yn ddigonol yng Nghoetir Ffynone a Chilgwyn.**

### *Rheolaeth ariannol ac archwilio Rhaglen Cydcoed*

36. Wrth baratoi ei adroddiad, gwelodd Swyddfa Archwilio Cymru fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru nid yn unig wedi methu â dilysu prisiad Calon ar y coetir, ond iddo hefyd dalu £6000 yn ormod i'r ymgeiswyr.[40] Dyma oedd esboniad y Swyddog Cyfrifyddu:

> "The people involved [in FCW] were dealing with two figures. There was the valuation figure obtained by the surveyor and the sale value, which was £6,000 higher than the valuation. Somehow, an error took place and we paid out on the higher figure, on the sale value. So, it was obviously an administrative error."[41]

37. Er bod hyn yn amlwg yn annerbyniol, rydym yn cydnabod mai gwall gweinyddol o bosibl oedd yn gyfrifol am dalu'r pris gwerthu uwch yn lle swm y prisiad y cytunwyd arno at ddibenion rhoi grant. Serch hynny, wrth roi tystiolaeth, dywedodd y Swyddog Cyfrifyddu nad oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gallu canfod y rheswm dros y gwall.[42] Addawodd roi manylion inni i esbonio pam y digwyddodd y camgymeriad.[43] Ers hynny, mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi rhoi gwybod i'r pwyllgor bod y gwall wedi digwydd oherwydd:

> "a transcription error in the Grant Agreement (contract)..[resulting]…in the sale value, rather than the independent value, being used in the payment schedule. This error was not identified by the Programme Manager during the Grant Agreement authorisation process"[44]

38. Nid ydym yn credu bod yr ymateb hwn yn esbonio'n ddigonol pam y digwyddodd y gwall. Yn benodol, **rydym yn argymell bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhoi manylion y gwiriadau rheolaeth ariannol a oedd ar waith ar y pryd i sicrhau na fyddai unrhyw ordalu'n digwydd, ynghyd â manylion i ddangos a ddilynwyd y**

---

[40] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn,* Awst 2010, t12-13
[41] Cofnod y Trafodion [para 53] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[42] Ibid para 59
[43] Ibid para 127
[44] E-bost gan Trefor Owen, Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru 21 Rhagfyr 2010

**drefn wirio hon yn yr achos hwn, er mwyn inni bwyso a mesur i ba raddau yr oedd y gwall yn wall gweinyddol mewn gwirionedd ynteu'n ddiffyg yn y system.**

39. Hyd yn oed ar ôl cael yr wybodaeth ychwanegol hon, mae'r ffaith na ddaeth hyn i'r golwg, nac wrth gynnal gwiriadau ariannol mewnol nac yn ystod unrhyw un o'r archwiliadau a gynhaliwyd (mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cyfeirio at "ddau archwiliad o leiaf yn ystod y cyfnod"[45]) yn annerbyniol. Credwn fod hwn yn ddiffyg difrifol ac mae dau beth yn ein poeni:

- y gallai'r gwall fod wedi digwydd o gwbl heb i weithdrefnau ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru sylwi arno ar unwaith;
- nad oedd y methodolegau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i ddilysu trafodion ariannol yn cynnwys gwiriadau a fyddai'n tynnu sylw at wall mor sylfaenol.

40. Gyda golwg ar y ddau bwynt, credwn y dylid cyfatebu cyfanswm y grant a roddwyd â'r ffigur y cytunwyd arno, ac y dylid dilysu'r ffigur hwnnw yn ei dro drwy ei gymharu â'r gwaith papur cefndir priodol, megis gweithdrefnau'r rhaglen a'r prisiad perthnasol. Dylai hyn fod yn brawf gwirio sylfaenol, a hwnnw'n rhan o'r trefniadau rheolaeth ariannol fewnol a'r drefn archwilio.

41. Er bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio hawliadau am grantiau Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer Cydcoed yn 2005-06 ac yn 2008-09, sylweddolwn mai cyfyng iawn oedd cylch gorchwyl yr archwiliad hwn, sef sicrhau bod gwariant:

- yn cydymffurfio â llythyr cynnig Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO);
- yn gymwys, yn unol â'r llythyr cynnig;
- wedi'i dalu (er bod WEFO wedi derbyn bod natur cynllun Cydcoed yn golygu na allai gydymffurfio â'r gofyniad hwn);
- yn eithrio TAW.[46]

42. Felly, ni fyddai methodoleg archwilio fel hyn wedi sylwi ar wallau o'r math hwn. Rydym yn falch o ddweud inni gael cadarnhad bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru bellach wedi adennill y £6,000 a

[45] Cofnod y Trafodion [para 49] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[46] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn, Awst 2010, t6

ordalwyd. Serch hynny, credwn ei bod yn hanfodol bod fframwaith cyffredinol y gwiriadau a'r archwiliadau ariannol ar gyfer unrhyw raglen grantiau'n cynnwys gwiriadau sylfaenol.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwiriadau sylfaenol, gan gynnwys dilysu'r grant a delir ar sail y ffigurau y cytunwyd arnynt yn unol â thelerau ac amodau'r grant, wedi'u cynnwys ym methodoleg archwilio'r cyrff sy'n gweinyddu arian grant ar eu rhan.**

43. Yn olaf, rydym yn poeni am dystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu, sef:

> "there were nine land purchases in the project, and this was by far the biggest. There is no evidence that we paid out more than the valuation to other schemes. This was an error".[47]

44. Yn hytrach nag awgrymu "nad oes tystiolaeth" o ordaliadau, awgrymwn y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu ddangos ***na wnaeth*** Comisiwn Coedwigaeth Cymru dalu grant a oedd yn fwy na'r prisiad mewn unrhyw un o'r wyth cynllun arall.

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnal gwiriadau i ddilysu bod ffigur cywir y prisiad wedi'i gynnwys yn y contractau ar gyfer yr wyth grant arall a roddwyd drwy raglen Cydcoed i brynu tir a bod y taliad neu'r taliadau wedyn yn cyfateb â'r swm cywir.**

### *Contract Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Calon*

45. Nodwn farn yr Archwilydd Cyffredinol sef: "nid oedd telerau'r contract y cytunwyd arnynt gyda Calon yn ddigon penodol i ddiogelu'r arian cyhoeddus a ddyfarnwyd a defnydd y gymuned o'r coetir ar ddiwedd y prosiect".[48] Seilir y casgliad hwn ar nifer o ffeithiau ac arsylwadau:

- ni lwyddodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru i ddiwygio'r contract sylfaenol ar gyfer ceisiadau a gymeradwywyd gan Cydcoed i adlewyrchu gofynion contractau prynu tir;
- nid oedd y contract yn gosod dim cyfyngiad ar Calon y tu hwnt i gyfnod 20 mlynedd y contract sy'n berthnasol i gontractau prynu tir;

[47] Cofnod y Trafodion [para 63] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[48] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*, Awst 2010, t12

- nid yw'r contract yn gwarchod buddiannau'r cyhoedd yn y tir a brynwyd pe digwyddai i Calon fynd i ddwylo'r gweinyddwyr; ac
- er bod y contract yn mynnu bod arian y grant yn cael ei ad-dalu pe gwerthid y tir o fewn cyfnod 20 mlynedd y contract, nid yw'n atal neb rhag gwneud elw drwy werthu'r tir yn y dyfodol, felly gallai Calon a'i aelodau fod ar eu hennill yn sylweddol heb orfod talu iawndal i'r pwrs cyhoeddus.[49]

46. Roedd y Swyddog Cyfrifyddu'n cydnabod y pwyntiau hyn yn ei dystiolaeth lafar. Yn benodol, dywedodd:

> "We relied on the articles of association and the fact that we have a 20-year contract to secure the public asset. We realised, when we did some legal checks, that this was not sufficiently robust. So, in the future, if there were similar schemes, we would be looking to ensure that a registered land charge is placed against the land so that, if an individual who had received public funds for land purchase was looking to transfer or sell that asset, it would not be possible or legal without reference to the funding body. That is a lesson that we have taken away from this particular situation."[50]

Roedd yn cydnabod hefyd:

> "technically there is nothing to stop the owner from changing the articles of association. The only safeguard we have is that there is a contract in place with us for the next 20 years. That gives us some opportunity to maintain a relationship with the landowner, giving us the opportunity to exert our influence."[51]

47. Yn olaf, cyfeiriodd at y gwaith parhaus sydd ar y gweill gyda Calon i geisio mynd i'r afael â'r diffygion yn nhrefn rheoli contractau Comisiwn Coedwigaeth Cymru:

> "We have made attempts to renegotiate the contract….. We have not been able to persuade the contract holder to do that. On the other hand, I am pleased with the way in which the contract holder has responded to our advice to reach out to the local community and people with an interest locally to try to get

[49] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn*, Awst 2010, t12
[50] Cofnod y Trafodion [para 20] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[51] Cofnod y Trafodion [para 21] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

more public involvement in this particular project. I am very happy to say a bit more about that."[52]

48. Rydym yn falch hefyd o nodi'r dystiolaeth bod Calon wedi ceisio meithrin cysylltiad â'r gymuned, ond yn nodi hefyd nad yw'r ymdrechion hyn wedi dwyn llawer o ffrwyth. Nodwn hefyd a chroesawu cyfeiriad y Swyddog Cyfrifyddu, er ei bod yn hwyr glas, at ddefnyddio pridiant defnydd tir mewn cynlluniau tebyg yn y dyfodol.[53] Serch hynny, credwn fod yr ymagwedd lac at ddiogelu asedau cyhoeddus a budd y cyhoedd yn y buddsoddiad a welwyd wrth weinyddu Cydcoed yn annerbyniol ac yn destun pryder mawr.

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru adolygu ei brosesau rhoi grantiau a'i gontractau yng ngoleuni Atodiad 5.1 (grantiau i drydydd partïon) ac Atodiad 5.2 (gwarchod buddsoddiadau cyhoeddus) o Reoli Arian Cyhoeddus Cymru, gan sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.**[54]

49. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cyfeirio at yr ymdrech barhaus i ddylanwadu ar Calon drwy gyfrwng y contract presennol. Nodwn hefyd fod Calon wedi ymrwymo i gyflwyno'r safle o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn sicrhau mynediad cyhoeddus i'r tir ac rydym yn croesawu tystiolaeth sy'n awgrymu bod Calon yn mynd ar drywydd hyn. Nodwn hefyd dystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu, sef, er gwaethaf anghydfodau ynghylch ffiniau: "the small areas of dispute should not stop the vast majority of the land being dedicated at this time, with perhaps a small percentage in dispute being dedicated later"[55] At hynny, mae'n dweud: "if the land is not dedicated, we could regard this as a possible material breach [of contract]".[56]

50. Yn yr un ysbryd ag argymhelliad cyntaf yr Archwilydd Cyffredinol ac er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd yn yr ased gan ddefnyddio'r arian prin sydd ar gael, **rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru weithio gyda Calon i sicrhau bod y gyfran fwyaf posibl o Goetir Ffynone a Chilgwyn yn cael ei dynodi o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 cyn gynted byth ag y bo modd.**

---

[52] Ibid para 18
[53]Cofnod y Trafodion [para 20] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[54] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Managing Welsh Public Money, Ebrill 2009, tt149-156
[55] Cofnod y Trafodion [para 30] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[56] Ibid para 34

**Rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru barhau i annog y gymuned i gymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir ynghylch y coetir ym mhob ffordd bosibl, gan obeithio a chan ddisgwyl y bydd y gymuned yn ymateb.**

***Cynllun busnes Calon.***

51. Mae tystiolaeth lafar y Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, sef, er bod gofyn cael "cynllun busnes" cyn rhoi grant dan raglen Cydcoed i Calon, nad oedd unrhyw fanylion ynghylch ffurf y cynllun hwnnw:

> "No specific conditions were attached to the submission of a business plan. In other words, the awarding of the grant was not conditional on a business plan meeting a certain standard. As I said earlier, the purpose of the business plan was to help to prepare the ground for the woodland management pCofnod y Trafodionosals that would come subsequently."[57]

52. Felly, arweiniodd hyn at sefyllfa ryfedd, sef bod gofyn cael cynllun busnes cyn cymeradwyo cais am grant gan Raglen Cydcoed ond nad oedd safon wedi'i diffinio ar gyfer cynllun o'r fath:

> "We did not specify clearly the standards that we were looking for from the business plan. It was not material to meeting the criteria and, therefore, to the awarding of the [Cydcoed] grant. We recognised that it was not good enough to prepare for the woodland management element, but that did not affect the decision to award the grant for the land purchase".[58]

53. Yn ein barn ni, roedd tystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu am amseru cyflwyno gwahanol fersiynau'r cynllun busnes yn ddryslyd. Yn benodol, mae'n awgrymu:

> "the purpose of the [Cydcoed] business plan to help to prepare the ground for the woodland management proposals that would come subsequently."[59]

54. Nid yw'n glir inni eto pam roedd angen cynllun busnes wrth wneud cais am grant Cydcoed gan fod y cynllun i bob golwg yn ymwneud â chynigion a oedd yn berthnasol i reoli'r coetir wedi hynny

[57] Cofnod y Trafodion [para 83] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
[58] Ibid para 87
[59] Ibid para 83

ac nad oedd y rheini'n rhan o amodau'r grant ar gyfer prynu'r tir. At hynny, ers inni glywed tystiolaeth y Swyddog Cyfrifyddu, mae aelodau o'r gymuned leol wedi cysylltu ag aelodau o'r Pwyllgor yn holi pa bryd y cyflwynwyd pob fersiwn o'r cynllun busnes a ddisgrifiwyd gan y tystion.

55. Er mwyn cael darlun eglurach o'r amgylchiadau sy'n berthnasol i'r cynlluniau busnes a gyflwynwyd, **rydym yn argymell y dylai Comisiwn Coedwigaeth Cymru ddarparu**:

- **rhesymwaith clir ar gyfer cyflwyno pob cynllun a gyflwynwyd gan Calon ar gyfer Rhaglen Cydcoed ac ar gyfer Rhaglen Coetiroedd Gwell i Gymru gan ddweud pam y gofynnwyd am y cynlluniau;**
- **amserlen cyflwyno pob fersiwn o gynllun busnes Calon, o'i chymharu â chyflwyno a chymeradwyo'u ceisiadau ar gyfer Rhaglen Cydcoed a Rhaglen Coetiroedd Gwell i Gymru;**
- **sicrwydd bod cynllun priodol o safon ddigonol i fodloni gofynion y rhaglen wedi dod i law cyn cymeradwyo Grant Gwell Coetiroedd i Gymru.**

56. Nodwn, pan ofynnwyd iddo a yw Comisiwn Coedwigaeth Cymru bellach yn dilyn y model pum achos ar gyfer cynlluniau busnes sy'n ofynnol gan Drysorlys Ei Mawrhydi (Rheoli Arian Cyhoeddus[60]) a chan Lywodraeth Cymru (Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru[61]), cadarnhaodd:

> "That is right. We follow best practice today as far as risk management, business planning and business cases are concerned. I am talking about where we were a number of years ago. We have made significant changes and improvements since that period, and particularly so during my short time as the accounting officer in this organisation."[62]

**Rydym yn argymell bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n rhoi sicrwydd inni fod holl gynlluniau busnes Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r cynlluniau a gyflwynir i gefnogi ceisiadau am arian, yn cael eu paratoi yn awr yn unol â gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.**

---

[60] Trysorlys EM, *Managing Public Money*, Chwefror 2010, t19
[61] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Managing Welsh Public Money*, Ebrill 2009, t18
[62] Cofnod y Trafodion [para 97] 25 Tachwedd 2010, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

***Cefnogi a Monitro rhoi'r Argymhellion ar waith.***

57. Mae maint a natur systematig y diffygion y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn destun pryder mawr inni. I bob golwg, mae'n amlwg bod y ffordd y gweinyddwyd arian cyhoeddus ar ffurf grantiau'n ddi-hid a dweud y lleiaf. Credwn fod y diffygion hyn yn amlwg yn groes i'r canllawiau ynghylch dyletswyddau Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru [63] a chan Drysorlys Ei Mawrhydi[64]. Rydym yn croesawu'r camau a ddisgrifiwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Serch hynny, nid yw'r dystiolaeth a roddwyd yn ein gwneud yn dawel ein meddwl bod y materion a nodwyd wedi cael sylw llawn.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i sicrhau bod argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ac argymhellion y Pwyllgor hwn i'r sefydliad hwnnw'n cael eu rhoi ar waith, gan roi sicrwydd i'r Pwyllgor hwn maes o law bod yr argymhellion wedi'i cyflawni neu wrthi'n cael eu cyflawni.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Archwilydd Cyffredinol roi ar brawf a yw'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith: argymhellion yr adroddiad hwn, argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus ar gyfer Coetir Ffynone a Chilgwyn, ac argymhellion yr adroddiadau blaenorol am Waith Comisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghymru a baratowyd gan y pwyllgor hwn a'r Archwilydd Cyffredinol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llwyr.**

# 3. Casgliad

58. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ceisio ein sicrhau ei fod yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a'i fod wedi derbyn bod diffygion o ran gweinyddu Rhaglen Cydcoed. Er ein bod yn croesawu'r ffaith ei fod yn derbyn y diffygion fel hyn, ac er ein bod yn croesawu llawer o'r camau

[63] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Managing Welsh Public Money*, Ebrill 2009, t18
[64] Trysorlys EM, *Managing Public Money*, Chwefror 2010, t19

gwneud iawn a ddisgrifir ganddo, mae maint y diffygion a'r ffaith eu bod mor sylfaenol yn destun pryder mawr inni.

59. O ran yr ystyriaethau cymunedol sy'n berthnasol i Goetir Ffynone a Chilgwyn, rydym yn falch hefyd o nodi'r dystiolaeth bod Calon wedi ceisio meithrin cysylltiad â'r gymuned, ond yn nodi hefyd mai ychydig o lwyddiant y mae'r ymdrechion hyn wedi'u cael. Credwn fod y diffygion wrth lunio a gweinyddu rhaglen Cyncoed wedi achosi anawsterau sylweddol i'r gymuned leol ac i Calon ei hun.

60. Rydym wedi nodi bod y Cyngor Cymuned lleol yn dal i alw am ymchwiliad cyhoeddus i'r materion sy'n berthnasol i ariannu prynu'r coetir. Credwn nad oes angen ymchwiliad o'r fath ac na fyddai hynny er budd y cyhoedd, yn enwedig ac ystyried y gwaith y mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r pwyllgor hwn wedi'i wneud. Fel y dywedwyd uchod, ein bwriad yw awgrymu bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel y'i cyfansoddir yn y Pedwerydd Cynulliad, yn rhoi sylw i'r mater hwn eto gan ystyried y cynnydd a wnaed o ran gwireddu'r argymhellion. Awgrymir hefyd y byddai'n fuddiol petai'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud rhagor o waith dilynol.

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiad o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w weld yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-ac-home/bus-committees-third-ac-agendas.htm?act=dis&id=205697&ds=11/2010

*25 Tachwedd 2010*

| | |
|---|---|
| Trefor Owen, | Cyfarwyddwr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Richard Siddons | Pennaeth Grantiau a Rheoliadau, Comisiwn Coedwigaeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-ac-home/inquiries.htm

| *Sefydliad* | *Dogfen* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru | Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru | PAC(3) FCW1 |
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru | Forestry Commission Wales Stragegic Guidance and Programmes: Level 3 funded projects governance for non-baseline | PAC(3) FCW2 |
| Comisiwn Cymru Coedwigaeth | E-bost gan Trefor Owen Cyfarwyddwr Comisiwn 21 Rhagfyr 2010 Coedwigaeth Cymru, | PAC(3) FCW3 |
| Swyddfa Archwlio Cymru | Comisiwn Coedwigaeth Cymru Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn | PAC(3) FCW4 |